egroeso
bwletin electronig gan **Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru**

RHIFYN 34

Twristiaeth yn cadw ar y blaen gyda thechnoleg glyfar

TOURISM PARTNERSHIP North Wales

PARTNERIAETH TWRISTIAETH Gogledd Cymru

www.tpnw.org

allan

tudalen nesaf

adventure

attractions

short breaks

gardens

golf

moviemap

walking

walled towns

giants

events

groups

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Twristiaeth yn cadw ar y blaen gyda thechnoleg glyfar

Cyn bo hir mae'n bosib y bydd gan atyniadau twristaidd yng Ngogledd Cymru eu cod bar arbennig eu hunain – hyd yn oed castell.

Gellir defnyddio ffôn symudol i sganio codau uwch dechnoleg ymateb cyflym neu QR er mwyn cyfeirio ymwelwyr yn uniongyrchol at wefan.

Mae'r dechnoleg yn cael ei mabwysiadu gan Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru, sy'n gyfrifol am ddatblygiad strategol economi ymwelwyr y rhanbarth.

Maen nhw wedi cynnwys cod QR ar chwarter miliwn o daflenni Dyddiau i'w Cofio Allan i'w dosbarthu ar draws Gogledd Cymru, Gogledd Orllewin a Chanolbarth Lloegr.

Gellir sganio'r cod gyda ffôn clyfar a chyfeirio'r defnyddiwr at wefan gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am yr atyniadau.

Dywedodd Carole Startin, Swyddog Gweithredol Marchnata a Digwyddiadau ar gyfer Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru: "Mae'n declyn gwych ac fe allwch chi greu eich codau QR eich hun yn hawdd iawn.

"Mae'n golygu y gallwch amgodio cerdyn busnes, cyfeiriad neu fanylion am yr atyniad fel amseroedd agor a gwybodaeth arall.

"Fe allwch chi roi codau QR ar unrhyw beth – gallwch eu rhoi ar atyniad, adeilad neu hyd yn oed ochr bws a bydd sgan syml gyda ffôn clyfar yn cyfeirio'r defnyddiwr at y wefan neu'r wybodaeth wedi'i hamgodio."

"Mae ganddo'r potensial i ddatgloi pob math o wybodaeth yn cynnwys fideo a sain – gall fod

Carole Startin, Swyddog Gweithredol Marchnata a Digwyddiadau gyda Phartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru ac Esther Roberts, Rheolwr Gyfarwyddwr Twristiaeth Gogledd Cymru yn dangos y taflenni

yn amserlenni bws neu rywle i yfed a bwyta neu lety. Mae'n gyswllt uniongyrchol rhwng lleoliad a gwefan.

"Ac fe allwch chi ddiweddaru'r wybodaeth yn gyson sy'n golygu nad yw taflen gyda chod QR arni yn dyddio pan fydd tâl mynediad neu amseroedd agor yn newid gan arwain at oes silff hirach, costau argraffu is a llai o wastraff."

Mae'r cod QR ar y daflen Dyddiau i'w Cofio Allan yn cyfeirio defnyddwyr ffôn clyfar at www.gonorthwales.co.uk .

Mae'r cod yn cael ei ddarllen gan raglen sydd naill ai eisoes ar y ffôn clyfar neu'n hawdd i'w lawrlwytho i'r ffôn ac y gellir ei ddefnyddio hefyd i greu codau QR.

Dywedodd Esther Roberts, Rheolwr Gyfarwyddwr Twristiaeth Gogledd Cymru, y byddai'r daflen yn cael ei dosbarthu ym mis Chwefror ar draws y ffin yn Lloegr gyda 110,000 yn mynd i Ogledd Orllewin Lloegr a 90,000 i Ganolbarth Lloegr. Mae'r 50,000 sy'n weddill eisoes yn cael eu dosbarthu ar draws Gogledd Cymru.

Dywedodd: "Rydym yn ceisio annog gweithredwyr twristiaeth i beidio â rhoi dyddiadau neu brisiau ar y taflenni fel nad ydynt yn dyddio'n fuan - gellir cael at y wybodaeth yna trwy gyfrwng y cod QR."

Cafodd codau QR eu datblygu gyntaf yn 1994 yn y diwydiant ceir i ddilyn hynt cerbydau ar y llinell gynhyrchu ond maent yn cael eu defnyddio bellach yn llawer ehangach, gan gynnwys ar gyfer tocynnau adloniant a thrafnidiaeth yn ogystal ag ar gyfer marchnata cynnyrch.

Gall defnyddwyr sydd â ffôn camera sydd â'r rhaglen darllenydd gywir sganio delwedd y cod QR i ddangos testun, gwybodaeth gyswllt, cysylltu â rhwydwaith di-wifr neu agor tudalen gwe ym mhorwr rhyngrwyd y ffôn.

Ychwanegodd Carole Startin: "Maent yn arf marchnata gwych, a gallant fod o gymorth mawr i ymwelwyr gael cymaint mwy o atyniad trwy eu cysylltu ar unwaith gydag unrhyw beth o dudalen wefan i fideo Youtube - mae'r posibiliadau'n ddiddiwedd.

"Gallech eu rhoi ar ochr y ganolfan groeso felly hyd yn oed os yw'r ganolfan wedi cau gallai ymwelwyr ddal i allu cael gafael ar wybodaeth yn hwylus.

"Fe allen nhw gael eu cyfeirio'n syth at y wefan berthnasol heb orfod chwilio drwy Google.

"Rydym yn annog atyniadau i'w defnyddio ac rwy'n gwybod bod y Gelli Gyffwrdd yn mynd i gynnwys cod QR ar eu taflen ar gyfer 2012 ac mae rhai consortia o atyniadau yn ystyried eu defnyddio hefyd.

"Fe ddylai arbed llawer o arian ac arbed llawer iawn o safbwynt argraffu oherwydd ni fydd yn rhaid argraffu cymaint neu mor aml.

"Yr hyn sy'n allweddol yw i peidio rhoi dolen i dudalen gartref gwefan ond yn hytrach dolenni gyda rhywbeth sy'n ddifyr a diddorol i gwsmeriaid - cyswllt fideo, cynnig arbennig, digwyddiad, eich siop ar-lein - mae'r rhestr yn ddiddiwedd, ond rhaid hefyd sicrhau bod y geiriad o dan y cod QR yn atyniadol a diddorol.

"Mae'n syniad da rhoi codau QR ar docynnau mynediad neu ffurflenni adborth, mewn caffi neu siop, neu hyd yn oed ar dderbynebau til. Byddwch yn ddyfeisgar - dim ond munud neu ddau y mae'n ei chymryd i'w creu."

Ewch i http://mashable.com/2011/11/11/qr-code-marketing-tips i gael cynghorion marchnata ar y cod QR.

www.tpnw.org